MAE GAN FUSNES CYMRU
**WELEDIGAETH WERDD**

Busnes Cymru | Business Wales



# DYMA GYFLWYNO'R CYNLLLUN DYCHWELYD ERNES

**03000 6 03000**

busnescymru.llyw.cymru
businesswales.gov.wales

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop**
**European Regional Development Fund**

## BETH YW CYNLLUN DYCHWELYD ERNES?

Mae ymwybyddiaeth gynyddol o'r angen i leihau gwastraff pecynnau i leddfu'r effaith ar yr amgylchedd, lleihau gwastraff adnoddau a chostau rheoli gwastraff, ac i symud at economi mwy cylchol. Mae Cynlluniau Dychwelyd Ernes (DRS) yn cael eu cyflwyno yn y DU er mwyn cymell cwsmeriaid yn ariannol i ail-ddefnyddio ac ailgylchu cynwysyddion diodydd.


Bydd DRS yn ychwanegu blaendal bychan i bris pob uned a werthir, a bydd y cwsmer yn cael y blaendal yn ôl wrth ddychwelyd cynwysyddion cymwys i'r mannau dychwelyd DRS dynodedig. Yna, bydd y cynwysyddion a ddychwelir yn cael eu gwerthu er mwyn eu hailgylchu.

Cynigir y bydd y cynllun ar waith yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ar ddiwedd 2024.

**Wyddoch chi?**
Bob blwyddyn, mae cwsmeriaid yn y DU yn defnyddio

**14 biliwn o boteli yfed plastig**

**9 biliwn o ganiau diodydd**




Yr Alban Ddi-wastraff, Llywodraeth yr Alban

## Y cynllun arfaethedig

Pennir Gweinyddwr y Cynllun nid er elw, a'i rol fydd sefydlu a rheoli gweithrediad y DRS. Ei brif rol fydd sefydlu a gweinyddu:

- Y seilwaith sydd ei angen i reoli'r ffrwd gwastraff newydd ar wahân
- Pennu'r uchafswm ac isafswm cyfraddau blaendaliadau
- Costau cyfathrebu i gwsmeriaid a manwerthwyr a helpu i annog pobl i ddychwelyd y cynwysyddion
- Penderfynu ar y ffioedd sy'n daladwy gan gynhyrchwyr er mwyn talu costau gweinyddu'r cynllun
- Casglu ac adrodd ar berfformiad (targed o gyfradd o 90% o gynwysyddion yn cael eu dychwelyd)

Nid yw maint y cynwysyddion a fydd yn berthnasol i DRS wedi'i benderfynu eto, fodd bynnag, er symlder, y flaenoriaeth yng Nghymru yw cynllun 'popeth' h.y. pob cynhwysydd hyd at 3L o ran maint. Mae hyn yn cael ei ystyried er cysondeb yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

**Beth fydd yn berthnasol i'r DRS?**

Can neu botel diod defnydd untro sydd â'r nod o gael ei werthu heb ei agor, gan gynnwys:



Poteli plastig PET

Caniau dur ac alwminiwm

Poteli gwydr

**Ddim yn berthnasol i DRS**



Tetra

Bagiau bychan

Codenni

Cwpanau

## Beth mae DRS yn ei olygu ar gyfer fy musnes?

Mae 'cynhyrchwyr' yn golygu perchnogion brandiau yn y DU a mewnfudwyr brandiau nad ydynt yn dod o'r DU, a manwerthwyr ar-lein.

Bydd y taliadau a wneir i'r Gweinyddwr DRS yn disodli'r taliad Cyfrifoldeb Cynnyrch Estynedig (EPR)/Nodyn Adfer Pecynnau (PRN) lle bo'n berthnasol. Er enghraifft, byddai'r plastig a ddefnyddir i ddal pecyn o lawer o ganiau'n dal yn berthnasol i EPR/PRN, ond byddai'r caniau eu hunain yn berthnasol i DRS.

---

## Cyfrifoldebau Manwerthwyr

Mae manwerthwyr yn cynnwys siopau ffisegol, manwerthwyr ar-lein a pherchnogion peiriannau gwerthu bwyd a diod. Rhaid i fanwerthwyr:

- roi gwybodaeth am DRS i gwsmeriaid ar yr adeg gwerthu, gan nodi pa gynnyrch sy'n berthnasol, y gyfradd flaendal perthnasol, a sut a ble y gellid cael y blaendal yn ôl
- gweithredu man dychwelyd ar gyfer cynwysyddion DRS gwag. Gellid caniatau eithriadau oherwydd ffactorau megis arwynebedd llawr, pris cynnal man dychwelyd
- (manwerthwyr ar-lein) cynnig gwasanaeth dychwelyd cynwysyddion DRS yn y safle cludiant. Gellid codi tâl am gasglu ond mae'n rhaid ei ad-dalu i gwsmeriaid
- (manwerthwyr lletygarwch) codi tâl am flaendaliadau a gweithredu man dychwelyd os caniateir defnydd oddi ar y safle.

Bydd angen i fanwerthwyr lletygarwch sy'n gwerthu cynnyrch DRS i'w defnyddio ar y safle weithredu mannau dychwelyd os ydyn nhw'n codi blaendal ar gwsmeriaid.

### Beth sydd angen i Gynhyrchwyr ei wneud?

**Cofrestru** gyda Gweinyddwr y Cynllun bob blwyddyn, gan ddatgan niferoedd gwerthu'r cynnyrch perthnasol (blynyddoedd blaenorol a rhagolwg)


**Cofnodi ac adrodd** cynnyrch DRS a werthir ym mhob cenedl, yn ôl deunydd (amseroedd i'w cadarnhau)

**Cyllid**

a) talu costau gweinyddu DRS drwy dalu 'ffioedd cynhyrchwyr'

b) talu costau gweithredu mannau dychwelyd a gwasanaethau drwy 'ffioedd trin'

## Llif Deunyddiau a Blaendaliadau





Valpak, 2022

## Ariannu'r DRS

Bydd costau Gweinyddwr y Cynllun yn cael eu talu drwy gyfuniad o:

- Gwerthu'r cynwysyddion a ddychwelwyd i ailgylchwyr
- Blaendaliadau sydd heb eu hawlio gan gwsmeriaid
- Diffyg oherwydd ffioedd cynhyrchwyr

## Amserlen ar gyfer Gweithredu




Valpak, 2022

## O BLE GALLAF I GAEL RHAGOR O WYBODAETH?

Llywodraeth Cymru: Ailgylchu a Gwastraff

Defra: Cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes (DRS) yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon - Defra - Citizen Space

Valpak

Busnes Cymru - Addewid Twf Gwyrdd

Gallwch drafod cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes yn eich busnes gydag Ymgynghorydd Busnes Cymru yn rhan o'r Addewid Twf Gwyrdd.